Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xliii. TACHWEDD, 1943. Rhif 11.

Hanes Undodiaeth.

[Parhad o Rifyn Hydref.]

3. Sefydlwyd Eglwys yng ngwlad Pwyl (Poland), ond llwyr-ddifodwyd hi yn ddiweddarach gan Erlid.

Darparodd gwlad Pwyl noddfa i'r alltudion. Yr oedd gan wlad Pwyl yn y dyddiau hynny ddiwylliant uchel. Eidalwyr oedd y Frenhines a'i chaplaniaid. Yr oedd y Brenin yn oddefgar. Estynai cyfansoddiad y wlad freiniau helaeth i'r gwŷr mawr lleol (a elwid yn bendefigion) gyda'r canlyniad y gallai tirfeddiannwr a oedd mewn cydymdeimlad â hereticiaid eu noddi ar ei ystâd.

Ar y dechrau cynyddodd yr hereticiaid oddifewn i'r Eglwys Ddiwygiedig (Calfinaidd). Ond diarddelwyd hwy ohoni, a gorfodwyd hwy i sefydlu eu heglwysi eu hunain, a elwid yn ddiweddarach yr Eglwys Ddiwygiedig Leiaf (Minor Reformed Church). Yn 1573 cawsant ryddid cyfreithlon. Cynyddasant yn gyflym. Yr oeddynt gan mwyaf yn Gristnogion syml o'r math a gysylltir a'r Ail-Fedyddwyr, yn gwrthod rhyfela a chymryd llwon. Yn 1759 ymunodd Eidalwr, Fausto Sozzini, a hwy, a daeth yn arweinydd iddynt.

O deulu'r Sozzini (yn Lladin, Socinus) y mae dau aelod sy'n enwog mewn hanes gwrth-Drindodol, yr ewythr Lelio (1525-1562) a'r nai Fausto (1559-1604). Yr ewythr oedd y bersonoliaeth fwyaf ddwys a deniadol, ond y nai Fausto oedd fwyaf ei ddylanwad. Cymharwyd ef â Chalfin oherwydd ei ynni oer a'i allu i gyfundrefnu. Fel Calfin sylfaenodd ei gasgliadau ar yr Ysgrythur. Ei waith ar yr Iawn yw'r pwysicaf hwyrach. Golygai gwestiwn Bedydd yn ddibwys, ac yn ddiweddarach derbyniodd yr Eglwys ei safbwynt nad oes ond un Sacrament yn unig—y Swper Olaf.

Ar y cychwyn tyfodd yr Eglwys yn llewyrchus. Ar un adeg yr oedd ganddynt gymaint a thrichant o gynulleidfaoedd. Yn Racow

codwyd dinas newydd, a daeth yn ganolfan iddynt. Sefydlwyd Prifysgol, ac iddi danfonai Pabyddion yn ogystal â Phrotestaniaid eu plant. Cyhoeddwyd drwy'r wasg fwy na phum cant o lyfrau. Enw y pennaf o'r rhain oedd *Catecism Racow*, a enwyd ar ôl y dref. Yr oedd Sozzini yn gweithio wrth hwn pan fu farw, a chyhoeddwyd ef flwyddyn yn ddiweddarach, yn 1605. Ymddangosodd y llyfr hwn yn y Lladin, yr Almaeneg, yr Isalmaeneg, ac yn y Saesneg, a gwnaeth hwn fwy nag unrhyw lyfr arall, oddigerth y Testament Newydd, i ledaenu syniadau gwrth-Drindodaidd.

Ond fe ddaethpwyd a'r Jesuitiaid i'r wlad, a phan ddaeth brenin yn dal syniadau'r Jesuitiaid i'r orsedd (Sigismund Vasa, 1587-1632) dechreuwyd cyfnod o erlid diarbed a chreulon. Mewn deng mlynedd ar hugain llwyr-ddifodwyd y mudiad. Erbyn 1660 yr oedd pobun a oedd wedi gwrthod gwadu ei syniadau wedi ei ladd neu ei alltudio.

O wlad Pwyl aethant i rai o'r taleithiau Almaenig lle yr oedd y llywodraethwyr yn fwy goddefgar, ond aethant gan mwyaf i'r Isalmaen (Holland), y pryd hynny y wlad fwyaf oddefgar yn Ewrop.

O'r eilfed ganrif ar bymtheg hyd y bedwaredd ar bymtheg defnyddid y gair—Sosin—yn fynych fel enw ar y gwrth-Drindodiaid. Ni ddefnyddiasant hwy ei hunain yr enw hwnnw. Pan gyhoeddwyd y casgliad mawr o'u gweithiau gan yr alltudion yn yr Isalmaen wedi 1665 fe'i disgrifir fel *Llyfrgell y Brodyr o Bwyl, a elwir Undodiaid, Bibliotheca fratrum Polonorum quos Unitarios vocant.*

4. Sefydlwyd Eglwys yn Nhransilfania sydd wedi aros hyd y dydd hwn.

Tua'r un adeg ag y lledaenai'r mudiad yng ngwlad Pwyl sefydlwyd Eglwys Undodaidd yn Nhransilfania sydd, ar waethaf erlid llym, yn aros heddiw.

Y mae gan yr Eglwys hon lawer hawl ar enwogrwydd. Transilfania oedd y wlad gyntaf i estyn rhyddid i'r fath wyriadau radical oddiwrth Gristnogaeth iawnffyddol (1568). Y llywodraethwr a fu'n gyfrifol am hyn yw'r unig Undodwr a fu'n Frenin mewn hanes, John Sigismund, Brenin Hwngari a Thywysog Transilfania (1540-1571). Yr oedd yr Eglwys a oddefwyd fel hyn yn un o'r pedair o grefyddau a gydnabuwyd gan y wladwriaeth, Pabyddiaeth, Lutheriaeth, Calfiniaeth (Diwygiedig) oedd y tair arall. A dyma'r unig Eglwys Undodaidd a chanddi Esgob yn ben arni. Ynddi yn y flwyddyn 1600 yr ymddangosodd yr enw—Undodwr—am y tro cyntaf erioed, a mabwysiadwyd ef yn swyddogol gan yr Eglwys yn 1638.

Dyn mawr yr Eglwys hon oedd Francis David. Canolbwyntiodd yn ei fywyd gyfnewidiadau llawer canrif. Yn ei dro bu'n offeiriad Pabyddol, Esgob Lutheraidd (Arolygydd), Esgob Calfinaidd, Esgob Undodaidd, ac yna datblygodd ei syniadau i rywbeth tebyg i

Undodiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bu farw yng ngharchar yn 1579.

Bu'r Brenin goddefol farw yn 1571, a dechreuodd cyfnod o erlid. Yn Nhransilfania ni lwyddodd yr erlid hwn i ddinistrio'r mudiad. Nid oedd gan y Jesuitiaid y gallu a oedd ganddynt yng ngwlad Pwyl. Dilynwyd eu herlid hwy gan erlid y Calfiniaid a oedd ddim mor ddiarbed er ei fod yn ddigon llym. Ac yr oedd adegau o dawelwch. Hyd 1690 yr oedd Transilfania dan arglwyddiaeth y Tyrciaid, a chawsant o leiaf oddefgarwch difrawder. Ar fan uchaf y lledaenu yr oedd 425 o eglwysi yn Nhransilfania. Lleihaodd y nifer oherwydd erlid parhaus, ac am amser yr oedd bôd yr Eglwys hon yn anhysbys yn Lloegr—hyd ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Heddiw y mae dros 150 o eglwysi.

5. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ceir y Mudiad yn Lloegr oddimewn i Eglwys Loegr.

Yn Lloegr yr oedd rhai gwrth-Drindodiaid gwasgaredig yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn enwedig ymhlith yr alltudion estron a oedd yn ffurfio Eglwys y Dieithriaid (Strangers' Church) ac ymhlith noddedigion a goleddai syniadau'r Ail-Fedyddwyr. Llosgwyd llawer i farwolaeth. Y tro diwethaf y llosgwyd un am heresi yn Lloegr oedd yn 1612, a dau wrth-Drindodwyr oedd y dioddefwyr.

O ddechrau'r eilfed ganrif ar bymtheg y mae ffrydlif barhaus o wrth-Drindodiaid. Lledaenid syniadau'r Sosiniaid gan lyfrau, gan alltudion, gan ymwelwyr estron, a chan deithiau ar y Cyfandir. Derbyniwyd i mewn i'r wlad niferoedd mawr o lyfrau'r Sosiniaid.

Yn rhan gyntaf y ganrif effeithiodd hyn ar y bobl fwyaf feddylgar. Drwgdybid yr Oxford School of Latitudinarians o fod wedi eu trwytho a syniadau'r Sosiniaid. Ond gelwid pobun, llydan ei feddwl neu yn credu mewn defnyddio rheswm, hyd yn oed pe na goleddai syniadau gwrth-Drindodol, yn Sosin—gair da i'r Sosiniaid ond achos dyryswch i'r hanesydd. Ymddengys fod sail dda i'r ddrwgdybiaeth ynglyn â dau o rai pennaf yr Ysgol hon, William Chillingworth (1602-1644) a'r Arglwydd Falkland (1610-1643). Yn 1640 pasiwyd deddf eglwysig i roi pen ar y drwg a wneid "trwy ledaenu heresi ddamniol a melltigedig Sosiniaeth."

Yng nghanol y ganrif, yn amser y Rhyfel Cartrefol a'r Weriniaeth, dechreuodd miloedd o wŷr a gwragedd ddarllen y Beibl am y tro cyntaf. Y canlyniad oedd cnwd rhyfeddol o heresïau. O'r rhain, edrychid ar y gwrth-Drindodiaid fel y gwaethaf, ac yn 1648 pasiwyd Deddf yn rhoi cosb marwolaeth ar y rhai a oedd yn gwadu'r Drindod. Trwy law Olifer Cromwel achubwyd rhag eu dienyddio Paul Best, a fu'n teithio yng ngwlad Pwyl a Thransilfania, a John Bidle, ysgolfeistr o Gaerloyw (Gloucester).

Gwnaeth John Bidle lawer iawn trwy ei lyfrau a'i dreialon

mynych a'i garcharu i dynnu sylw at y syniadau hyn. Bu farw yng ngharchar wedi'r Adferiad (1662).

Yn 1600 adferwyd Siarl II. Tawelodd y mudiadau poblogaidd ond ymhlith y bobl fwyaf ddysgedig yr oedd syniadau'r Sosiniaid wedi eu hau ar hyd ac ar led. Drwgdybid y Cambridge Platonists, fel yr Oxford Latitudinarians yn gynharach yn y ganrif, o'r heresi.

Ymddangosodd yr enw—Undodwr—gyntaf yn Lloegr yn 1672 mewn pamffled gan Henry Hedworth.

Talwyd am gyhoeddi cyfres o Dractau Undodaidd gan Thomas Firmin, disgybl Bidle, er fod ei syniadau'n fwy rhyddfrydig. Teitl un o'r rhain oedd *A Brief History of the Unitarians, called also Socinians* a ysgrifennwyd gan Stephen Nye (1687). Yn Lloegr, fel ar y Cyfandir, gwell gan y gwrth-Drindodiaid fyddai cael eu galw yn ddim ond Cristnogion.

Y mae llinell yr heresi wrth-Drindodaidd yn ddidor drwy'r ddeunawfed ganrif. Gyda chyhoeddi *The Scripture of the Trinity* gan Samuel Clarke (1712) fe gymer unwaith eto ffurf newydd. Sosin oedd Bidle; Sabeliad oedd Firmin; Hanner-Ariad oedd Clarke.

Er esbonio ohonynt y credoau yn eu ffordd eu hunain, ymddangosai'n beth iawn iddynt hwy aros oddifewn i Eglwys Loegr, oherwydd y gallent amddiffyn eu syniadau drwy'r Ysgrythurau ac oherwydd y gobeithient lefeinio'r Eglwys oddifewn a'i rhyddhau o orfod derbyn credo.

Peth arwyddocaol ydyw'r gwyro parhaus i heresi pan oedd dynion yn meddwl yn rhydd, ond gan fod y meddylwyr hyn yn dal i dderbyn defodau'r Eglwys ni chafodd y mudiad ond ychydig neu ddim dylanwad. Yn wir, nid oddiwrth y gwrth-Drindodiaid hyn oddifewn i'r Eglwys y disgyn y mudiad Undodaidd ond oddiwrth Weinidogion y Troad Allan, a orfodwyd gan eu cydwybodolrwydd manwl i adael eu bywiolaethau, er na ddalient unrhyw ffurf ar syniadau Undodaidd ar y pryd y gwnaethant hynny.

(I'w barhau).

Cyfieithiad o bamffled y Parch. R. V. Holt, M.A., B.Litt., Rhydychen.

TRIOLED

Os nad oes gen ti ddim i'w ddweud,
Paid byth â blino'r saint i'th wrando.
Rho glo ar ffug dy holl ymwneud
Os nad oes gen ti ddim i'w ddweud;
Cei fwy o barch os gelli wneud
Heb siarad maith dy hun, a chofio
Os nad oes gen ti ddim i'w ddweud
Paid byth â blino'r saint i'th wrando.

Dyserth. ALWYN THOMAS.

Nid oes berygl i Grefydd Ddiflannu.

Gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin a Chiliau Aeron.

Dywedodd y Parch. H. E. Fosdick yn y *Christian World* (Gorff. 9, 1936) fod crefydd yn wynebu sefyllfa y dyddiau hyn na fu erioed ei bath. Hyd yn hyn rhennid pobl grefyddol gan ddadleuaeth o blaid un ffydd ac yn erbyn ffydd arall. Ni feddylient am wrthod crefydd : eu anhawster oedd methu â phenderfynu rhwng crefyddau a'i gilydd. "Erbyn hyn," meddai Fosdick, ' nid methu a phenderfynu rhwng un grefydd a'r llall y maent, ond y maent yn amheus pa un a oes gwirionedd mewn crefydd ai peidio." Yn ôl Fosdick, yn ein dyddiau ni y mae'r frwydr rhwng ffydd ac anffyddiaeth, rhwng crefydd ac anghrefydd.

A ydyw crefydd mewn cymaint perygl ag yr ymddengys cred Fosdick ? A oes perygl i ddyn ymwrthod ag addoli ? Dywedwn yn bendant nad oes.

Dywed anghredinwyr mai'r teimlad o ofn a greodd y syniad o Dduw. Ar ôl i ddyn ddatblygu'n feddyliol gwelodd fod nerthoedd anianyddol peryglus yn ei amgylchynu. Dychrynid ef gan ru'r daran a fflach y fellten. Cyfyd y môr ei donnau megis mewn tymer ddrwg yn ei erbyn, a hyrddiai ei long fechan ac egwan yn erbyn y creigiau, gan fygwth dinistrio ei fywyd. Daw'r glaw yn genllif ar ei feysydd, a phar i'w ffrwythau bydru. Oblegid pethau felly meddiennid dyn gan ofn am ei ddiogelwch. Tybia fod y nerthoedd a amlygir gan y pethau hyn yn tarddu o ryw ysbrydion drwg. Canlyniad y dybiaeth hon yw ei gais i ddod i heddwch a'r ysbrydion hyn drwy gyflwyno iddynt aberthau. Yn y modd y ceisia rhai gyfrif am ddechrau addoli ym mysg pobl.

Ond camgymeriad ydyw tybio mai nodwedd yn perthyn i gyfnod bore ac anwar y bywyd dynol yw addoli Duw neu dduwiau. Y mae'r teimlad addolgar yn parhau yn nodweddiadol o fywyd dyn mewn cyfnod diwylliedig. Y mae'r dyn sydd wedi ei ddiwylliо'n feddyliol ac yn foesol yn teimlo anghenion newydd, a geilw y rheini am gael eu diwallu. Ar ôl i ddeall a rheswm gael eu deffro ynddo, cenfydd ddirgelion yn y byd. Ni all ddeall popeth yn y cread. Gwêl fod ffrwythau'r ddaear yn gynhaliaeth i'w gorff, ond ni ddeall yn gyflawn y berthynas sydd rhwng y ffrwythau a'i gorff. Ymhola a ydyw un ar gyfer y llall, ac a oes yna drefn yn bod yn y cread. Myn ei reswm iddo gredu fod yna drefn yn bod. Ar ôl gweled hynny rhaid iddo gredu fod yna Fod deallus y tu cefn i'r byd. Fel hyn caiff ei arwain i diriogaeth ffydd a chrefydd.

Ar ôl i'w ddeall a'i reswm ymddatblygu cyfyd ynddo ymdeimlad o amherffeithrwydd. Caiff ei natur foesol ei dihuno. Ymddengys ger bron ei feddwl ddelfryd o fywyd perffeithiach. Teimla awydd i ymestyn tuag at y bywyd hwnnw. Sylweddola fod yr awydd

hwn yn ei godi uwchlaw'r materol. Mwyach y mae iddo fywyd sydd yn uwch na'r un aniannol. Rhaid cyfrif am y bywyd hwn, a gorfodir ef i gredu fod y bywyd hwn yn deillio o Fod sydd uwchlaw iddo, ac ymddeffry ynddo'r gred mewn Duw sydd yn Dduw sanctaidd. Teimla yn awr ei fod yn gyfrifol i'r Duw hwn am ei ymarwedd. Teimla'n euog pan fydd ei weithred yn ansanctaidd. Dyna fe bellach yn ddyn y mae addoli a byw yn grefyddol yn naturiol iddo.

I gyrraedd y sefyllfa hon rhaid i holl natur dyn gael ei datblygu. Rhaid i'w feddwl a'i deimlad a'i ewyllys gael eu datblygu. Os mai ei feddwl yn unig a gaiff ei oleuo gall ei ewyllys barhau'n llygredig, ac felly'n rhwystr iddo godi i dir moesoldeb. Tra y mae ar dir aniannol ni all deimlo perthynas a Bod uwchlaw iddo. Bod ysbrydol a sanctaidd yw Duw, yn ceryddu bywyd ansanctaidd. Ni all yr aniannol deimlo'r cerydd hwn na sylweddoli ei berthynas â bod uwchlaw iddo.

Y rheswm am anghrediniaeth rhai dynion yw fod yna ryw rannau o'u bywyd yn aros mewn sefyllfa lygredig, a'u bod yn cael eu anghymwyso gan y rheini i adnabod Duw a theimlo tuedd i'w addoli.

Dalen Arall o Lyfr fy Mhrofiad.

[Parhad o Rifyn Hydref.]

GWEINIDOGION A ADWAENAIS.

DEUTHUM i gyffyrddiad arbennig o agos â Mr. James; ac anwylaf ef hyd fy marw, nid yn unig ar gyfrif ei werth fel dyn, eithr hefyd ar gyfrif ei garedigrwydd dihafal imi. Ef a'm dysgodd i dreiglo "mensa" ac "amo," ac a gadwodd ei olwg arnaf yn fy ymgais gyntaf i groesi "pont yr asynnod." Pont ryfeddol o beryglus yw hon; ac ychydig yw'r nifer a lwydda i'w chroesi yn yr ymgais gyntaf heb anhap; o fethu, testun difyrrwch a fydd yr anffodusyn. Ai diogel yr euthum drosti, ynteu syrthio a wneuthum, ni chofiaf. Aml dro wedi hynny y cefais innau gyfle i wylied eraill yn wynebu'r un broblem anodd a pheryglus.

Bu Mr. James yn weinidog yn Aberdâr rai blynyddoedd cyn dod ohono'n olynydd i Wilym Marles yn y Llwyn, a'r Bwlch, a Llandysul. Olynydd rhyfeddol o gymwys iddo a fu; oblegid cyfranogai i fesur mawr iawn o allu meddwl a syniadau ac ysbryd y dyn mawr hwnnw. Ni bu tymor ei weinidogaeth yn ei gylch newydd yn hir; bu raid iddo yn fuan—lawer rhy fuan—ymddeol

o'i ofal gweinidogaethol gan ddirywiad iechyd, a chilio ohono i fywyd anghyhoedd. Bywyd anghyhoedd, yn wir ! Ni bu erioed anghywirach darluniad o sefyllfa. Er ymddeol ohono o'r weinidogaeth, ni chollodd mo'i ddiddordeb nac yn ei enwad nac yng ngogwyddion meddwl crefyddol ei ddydd tu allan i'w ffiniau ; os dim, angerddoli a wnaeth. Fel ysgrifennydd y Gymdeithas a Golygydd Yr Ymofynnydd, ymdaflodd gydag ynni i'r cyflawni o ddyletswyddau'r ddwy swydd. Diau y cofia'r hynaf o'n darllenwyr am ei ysgrifau galluog yn ein misolyn, yn enwedig ei "Nyth y Fran." Enillodd yr olaf gryn sylw, a buont yn destun siarad, nid yn unig gan ddarllenwyr cyson ein cyfnodolyn, eithr tu allan i'r cylch enwadol.

Fel pregethwr, oedd o ddosbarth arbennig, ac ef oedd yr unig aelod o'n dosbarth ; nid oedd debyg i neb arall, a ffolineb a fuasai i neb arall geisio'i ddynwared, oblegid ni lwyddasai. Medrai gyfleu ei genadwri i glyw'r gwrandawyr gyda nerth a'u gorfodai i wrando, ac a'i gwnai'n anodd—yn amhosibl, yn wir—iddynt gael eu blino gan syrthni cwsg. O'i bregethau—yr oll yn dda—erys yn fyw ar fy nghôf yr un a draddodwyd ganddo mewn cwrdd chwarter (neu, flynyddol) ym Mrondeifi—pregeth y "drive on," fel y'i gelwid gan a'i clywodd.

Beth amdano fel dyn ? Pe dywedwn y cwbl y sydd ar fy meddwl, ofnaf y'm cyhuddid o orliwio. Nid gorliwio, modd bynnag, eithr dywedyd amdano fel y'i profais, a wnawn. Oedd o gymeriad rhyfeddol o uchel ; calon lân oedd ei galon ; mynwes llwyr ddifrad oedd ei fynwes—ni chai nac eiddigedd na dichell na chenfigen le i nythu ynddi. Cyn y gwelid ei werth ar ei orau, rhaid oedd dod i gyfrinach agos ag ef ; ac ar ei ealwyd ei hun, yn fwy hyd yn oed nag yn un cyswllt arall, y deuai cyfrinach eithriadol agos ag ef yn bosibl. Bûm yn fath ar gurad iddo am o ddwy i dair blynedd tra'r oeddwn yng Nghaerfyrddin ; bryd hynny, o'i weld yn ei gartref, fel penteulu, y dysgais ei barchu, ac edrych i fyny ato fel y patrwm gorau o Gristion y deuthum o hyd iddo. Beiddiaf honni, o'i ddarlunio fel hyn, nas gorliwiaf.

Ni fedraf ddwyn y sylwadau hyn i derfyn heb sôn am un elfen hynod o ddymunol arall o'i gymeriad—ei hoffter o ddigrifedd diniwed a diwenwyn. Ie, diniwed a diwenwyn, onite ni fai croeso. Ei chwerthiniad iachus, a naturiol oedd arwydd sicr o'i fodlonrwydd. Onid elfen neu allu hwnt i ddisgrifiad o werthfawr yw'r elfen neu'r gallu i weld a gwerthfawrogi'r agwedd ddigrifol o ddigwyddiadau ? "Od yw'r ffordd yn flin a garw"—y mae felly'n aml. O edrych ar yr ochr olau—od oes ochr olau—o chwilio am ryw agwedd o'r daith afrwydd a bair i ddyn wenu—fe esmwytheir y ffordd yn fawr iawn.

Fy rhagflaenydd uniongyrchol yng Nghribyn oedd William Eynon Davies. Dyn ieuanc o gorff gwan, eiddil, o iechyd hynod

fregus, ydoedd ; eithr oedd o benderfyniad di-ildio—oedd benderfynoled fel y gwrthododd roddi'i arfau i lawr hyd ymron ei awr olaf. Bu'n pregethu yng Nghribyn nawn Sul ; trannoeth, yn gynnar a dirybudd, ehedodd ei ysbryd at a'i rhoes, ac yntau ond 31 oed. Dod i gyffyrddiad agos ag ef oedd ddigon i beri hoffter ohono. Nid yn aml y cwrddir â dyn ieuanc o ysbryd mor addfwyn a diymhongar, o feddwl mor fyw a chraffus, o ddelfrydau mor aruchel, o gymeriad mor lân a phur. Ys dywed Mr. James yn ei fywgraffiad ohono : "Mae Undodiaeth Gymreig wedi colli un o'r gweinidogion mwyaf gwrteithiedig, a mwyaf cymwys mewn gallu a chymeriad at y gwaith ; ac fe deimla pawb oeddent yn ei adnabod eu bod wedi colli o'r ddaear yma bresenoldeb un ag oedd mor ddifrifol, mor ddidwyll, mor drwyadl, ac un mor bur a neb a anadlodd erioed." Fel athro a gweinidog, llanwodd ei le hyd yr ymyl ; a mawr golled a fu o'i farw cynnar.

Gorffwys ei babell frau yn naear mynwent y Llwyn, ymron ochr yn ochr ag eiddo'r diweddar Evan Griffith Jones, un arall o weinidogion Cribin, yntau wedi'i dorri i lawr yn ei amser gorau, yn fawr ei barch gan a'i hadwaenai. Deallaf ddiflannu o gymdogaeth y Llwyn ymron (os nad) yr oll o gysylltiadau perthynasol Mr. Davies, fel nad oes neb a deimla ddiddordeb "ym man fechan ei fedd." Dipyn yn anniben yw'r garreg goffa uwch ei feddrod. Er mai ychydig o'i gyfoed sydd fyw—amheuaf a oes yng Nghribin hanner dwsin a'i cofia—eto, credaf na raid imi ond galw sylw at y diffyg cyn y symudir i gyflawni'r gymwynas olaf hon iddo.

Beth, ynteu, a ddywedaf am y gweinidogion a enwais ? Dywedaf —y'u nodweddid i gyd gan deyrngarwch brawdol at ei gilydd. O leiaf, welais i un arwydd o ddim arall gwahanol a chroes i hyn. Onid fel hyn y dylai fod ?

Bu ysgrifennu'r ychydig lithiau hyn, i mi, yn ffynhonnell o gryn bleser. Gobeithiaf nad anniddorol a fuont i'r darllenwyr. Cydnabyddaf i'r elfen bersonol ddod i'r golwg dipyn yn amlwg—yn rhy amlwg, o bosibl. Yr un yw fy esgusawd dros hynny ag eiddo Thoreau. Gofynnwyd iddo pam y soniai gymaint amdano'i hun yn ei lyfrau. "Am y rheswm," meddai, "na wn i ddim cymaint am neb ag a wn amdanaf fy hun." Hon, yn ôl a fwriadaf yn awr yw'r olaf.

D.E.

Evan John, Ynysmeudwy.

Gan Mr. Thomas Rogers, Ynysmeudwy.

Hunodd Medi 23, 1943 yn bedwar ugain a saith mlwydd oed. Anodd sylweddoli heb ollwng deigryn ei fod wedi ei symud o'n plith mor ddisymwth, dim ond chwe diwrnod o gystudd.

Ganwyd ef yn Ynysmeudwy Isaf, ffermdy yn ymyl pentref Pontardawe, yn y flwyddyn 1856. Prin oedd addysg y dyddiau hynny, ond gwnaeth efe y diffyg i fyny i raddau boddhaol, trwy ei ymdrechion hunan-ddiwylliol a chymorth ei weinidog, fel y daeth yn ddigon o ysgolhaig i gario ei fusnes yn y blaen yn ddidrafferth drwy ei oes.

Dechreuodd weithio ar y fferm yn go ieuanc. Bu yn gyrru'r wedd, meddai, rai troeon, ac yr oedd yn arfer i ganu i'r ychen wrth eu gwaith ; yr oedd y gred eu bod yn myned yn fwy ufudd ac hamddenol pan glywent sŵn, a'r gwaith yn dyfod ymlaen yn fwy hwylus. Ychydig sydd ar gael heddiw yn cofio'r dull yma o amaethu.

Yn 1881 symudodd y teulu i Ynysmeudwy Uchaf, un o ffermydd mwyaf golygus Cwm Tawe. Wedi rhai blynyddoedd priodod Mr. John gyda Miss Elizabeth Morgan, Twllygwyddyl, Mynydd y Gwair, yn nosbarth Mawr, Llangyfelach. Cawsant ddau o blant, sef, Hopkin Phillip a Tom Howell, ac er loes yr ydym yn gorfod cofnodi i'w annwyl Tom ei ragflaenu trwy'r glyn dair wythnos o'i flaen, a diau i'r ergyd gyflymu ei ymddatodiad yntau. Yr oedd ei annwyl briod wedi ei ragflaenu ers oddeutu pedair blynedd ar bymtheg, ond cafodd bob ymgeledd yn ei amddifadrwydd oddiar ddwylaw ei fechgyn a'i ferched-yng-nghyfraith, ac eraill o'i garedigion.

Hen gyfaill rhagorol, a'i ddynoliaeth yn pefrio trwy ei holl ymwneud, nid hawdd ei gyffroi ; ond os cyffroai, yr oedd yno storom. Un o'r rhai mwyaf diddichell a sangodd daear, unplyg, a diargyhoedd, maddeuer i ni am bentyrru ansoddeiriau i'w gymeriad diledryw, oblegid credwn ei fod yn gwir deilyngu yr hyn oll a ddywedwn, a rhagor. Nodedig ei hunan-ymwadiad, ie—

Naturiol yn ei osgo
Ein harwr oedd bob pryd,
Ni chafodd gwag ymffrostio
Erioed sedd yn ei fryd ;
Amaethwr yn ei elfen
Fel ei gyndeidiau gynt,
Yn grwt bu'n gyrru'r ychen
Mewn curlaw oer a gwynt.

Bu'n ffeiriwr diarhebol
Hyd ffeiriau mawr ein gwlad,
Ei enw sai'n arhosol
Mewn gwiwbarch a choffhâd ;
Ffair Hwlffordd a Maenclochog,
A thre Cyfelach Sant ;
Yn 'rhain cawd ef yn bwyllog
Ar waethaf porthmyn gant.

Ffair Narberth a Llanddarog,
A ffair Llandeilo Fawr,
Daeth ef trwy'r oll yn enwog
Fel gŵr i dalu lawr ;
Ffair Eglwyswrw hyglod,
Hen Feddau ddaw'n y rhes,
Ef yn y rhain fu'n trafod
Gwerth llawer iawn o bres.

Ffair Castell Nedd, a'r Talgarth,
Ac Aberhonddu dre,
Yn onest ym mhob dosbarth
Wrth ddelio oedd efe ;
Ffair fawr John Brown, a'r Dalys,
Y Crymych, a'r Alltwen :
Holl ffeiriau'r De yn ddilys
A chofus gawd o'i ben.

Ffair enwog Llanybydder,
Lle daw y gwlanog lu,
Yn brynwr o fawr nifer
Flynyddoedd yma fu ;
Nid porthmon chwaith mohono—
Deellwch hyn bob un—
Ond gwron yn trafnidio
Yn rheidiau'i fferm ei hun.

Milfeddyg lleol dethau
A ddysgwyd gan ei dad
A Morgans gall Bryncarnau—
Gwŷr medrus yn ddiwad,
Hen Gwrtybetws hirben,
A'i ewythr doeth o'r Cwm ;
Profiadau'r cewri trylen
Gymhathodd ef yn drwm.

Difyrrus oedd ei glywed ar fore Sul yn adrodd hanes ffeiriau a fu ynddynt ym more'i oes ac am yr hen ffermwyr digrif, ac os clywai am un o'r cyfryw wedi marw yr oedd yna ryw ochenaid hiraethlon yn dyfod o'i fynwes, ac yr oedd rhyw ystori ddoniol yn debyg o ddyfod allan am y trancedig wedi hynny.

Canolbwynt ei grefydd oedd gwneuthur daioni i'w gyd-ddyn.

Hen Gapel Gellionnen,
Mae'n tynnu ei holl fryd,
Lle bu yn ieuanc llawen
A'i gyfoed yno 'nghyd ;
Ei ymffrost yn wastadol
I'w achau gymryd rhan
O reddfol aidd ysbrydol
Yng ngwiw arloesi'r fan.

Undodwr cadarn cynnes
Fu'n harwr trwy ei oes,
Cysondeb efo'i broffes
Fu'n llachareiddio'i foes ;
Sôn oedd am sêr ei enwad,
Dysgedig yn eu dydd,
Hyfedr mewn ymresymiad,
Diysgog yn y ffydd.

Yn anffodus, yr oedd wedi colli ei olygon yn rhannol cyn cyrraedd ei hanner cant oed, nid trwy unrhyw ddamwain ond o ddiffyg cyfansoddiadol, ac er ymdrechion penfeddygon i'w adfer bu'r cwbl yn ofer. Er hynny i gyd, yr oedd yn hynod o hylaw wrth brynu anifail, megis eidion neu geffyl. Yr oedd yn myned a'i ddwylaw drosto i gyd, ac yn ei deimlo'n fanwl. Yna wedi gorffen yr oedd yn dra sicr a dalai'r ffordd iddo fentro ar y fargen neu beidio.

Bu ysgrifennydd y llinellau trwsgl hyn yn byw dano am yn agos i dair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd, ac ni chafodd yr un o'r teulu yr un gair swrth dros ei enau na gweled yr un gwg ar ei wyneb yn ystod yr holl amser. Yr oedd lledneisrwydd megis yn gydwaeëdig a'i holl anianawd, a'i enaid yn ymhyfrydu mewn dyngarwch, fel pe heb yn wybod iddo'i hun.

Cawsom lawer o gynghorion ganddo, er nad oedd yn llawer hynach na ni, ond yr oedd ei brofiad yn eangach, yr oedd wedi talu mwy o sylw i bosibilrwydd pethau yn amgylchoedd bywyd, ac yn gweled pethau yn cymeryd lle yn y dyfodol pell, ac yn paratoi

ar eu cyfer. Os oedd ei olygon naturiol yn pallu, yr oedd pethau yn weddol o glir i gyfeiriad llygad ei feddwl.

Rhoddodd lawer o'i wasanaeth a'i hyfforddiant yn rhad ar hyd y cymdogaethau mewn milfeddygiaeth, ac os llwyddai i achub anifail i rhywun pwy bynnag, hynny oedd un o ddirgelion ei foddhad.

Os codai dadl yn y lle ynghylch rhyw ddigwyddiad, yr oedd efe'n sicr o benderfynu'r cwestiwn ar unwaith trwy ddweud y dyddiad oddiar ei gof.

Ei gof oedd yn ddihysbydd
Fel ffrwd y nant heb ball,
Ei holl ddyddiadau beunydd
Gydweddai yn ddiwall ;
Symudol Cyclopaedia
Oedd ein hen gyfaill cu,
Diddorol cael o'i storfa
Hen chwedlau Cymru Fu.

* * *

Wedi gyrfa hir, llafurus,
Glân oddiwrth bob drwg a brad,
Huned yr hen frawd cariadus
Ym Macpela'i deulu mad.

Priodas.

Hydref 23, yng nghapel Mydroilyn, gan y Parchn. D. Rhys Thomas a S. E. Bowen, BENJAMIN JENKINS, Cluncoch, Cwrtnewydd ac ELIZABETH DAVIES, Esgerwenfach, Mydroilyn.

Marwgofion.

Bu farw STEPHEN HUGHES, y Dderwen Gam, Neuaddlwyd ar y 3ydd o Hydref yn 49 oed. Mab ydoedd i'r diweddar Daniel ac Elizabeth Hughes, Bronfallen, Cribyn. Cafodd gystudd hir, ac ychydig y bu fyw wedi dychwelyd o'r ysbyty. Gadawodd weddw a dau o blant wedi tyfu i fyny. Claddwyd ef y dydd Gwener dilynol ym Mydroilyn a'r Parchn. D. R. Thomas, Llwyncelyn, a J. O. Jones, Penycae yn gwasanaethu.

Hydref 5, yn 87 mlwydd oed, THOMAS JONES, Creuddyn Bridge, plwyf Llanfihangel-Ystrad. Saer coed ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac yr oedd yn grefftwr medrus iawn. Yr oedd hefyd yn hollol onest yn ei waith, ac yn gwneud gwaith da. Cymerai ddiddordeb mawr mewn garddwriaeth, a bu ei enw yn adnabyddus fel un llwyddiannus mewn arddangosfeydd ffrwythau a blodau. Er na chafodd ond ychydig iawn o fanteision addysg, yr oedd wedi diwyllio ei feddwl yn fawr, ac yn un goleuedig ar faterion cymdeithasol, gwleidyddol a chrefyddol. Yr oedd yn ddiacon yn eglwys Rhydygwin, ac yn ffyddlon gyda'r achos hyd i'w nerth ballu. Claddwyd ym mynwent eglwys Rhydygwin ; gwasanaethwyd gan y Parchn. Lewis Williams, ac Isaac Evans, Ficer Silian. Gadawodd ddau fab a'u teuluoedd mewn hiraeth.

Hydref 6, bu farw Mrs. ANNE EVANS, No. 1 Crossway, Cwmsychbant yn 64 mlwydd oed, a'r dydd Sadwrn dilynol daearwyd y rhan farwol ohoni ym

mynwent Capel y Cwm. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan ei gweinidog, y Parch. S. E. Bowen, yn cael ei gynorthwyo yn y tŷ ac yn y capel gan y Parch. D. T. Davies, B.A., Ficer Pontyberem, a Mr. Morris Davies, B.A., myfyriwr. Treuliodd Mrs. Evans ran helaeth o'i bywyd mewn masnach yn Llundain. Yno yr oedd yn gysylltiedig â King's Cross, a hoff ganddi ydoedd siarad am Elfed. Wedi ymddeol i'w hen ardal, er fod ei hiechyd yn wan, bu'n ffyddlon ac yn weithgar yng Nghapel y Cwm. Ei gwaith arbennig oedd gofal y plant bach yn yr Ysgol Sul. Rhoes wasanaeth mawr i'r adran o Gynghrair y Gwragedd. Hefyd ni cheir mwyach ei help yn y cwrdd ar y Sul. Yr oedd yn alto fendigedig. Nid oedd neb a fedrai wneud ei phresenoldeb yn fwy dymunol na hi ym mhob rhyw fan. Un o deulu lluosog, ei brawd sef Mr. James Thomas, arweinydd y gân, yn unig sydd ar ôl yn awr. Nai iddi yw'r Parch. D. T. Davies, ac yr oedd llawer o neiaint eraill hefyd yn bresennol yn yr angladd. Gwelir ei heisiau yn fawr yng Nghapel y Cwm.

Ar y 16 o Hydref bu JOHN EVANS, Maesyronnen, Cribyn, farw yn 71 oed, trysorydd ffyddlon a didwyll y capel er y flwyddyn 1931. Ganed ef yn y Dderwen Gam, ond daeth yn ifanc i ardal Cribyn. Treuliodd rai blynyddoedd yng Nghwm Rhondda, ac yfodd yn helaeth o ddiwylliant grymus y gweithfeydd. Edrychai ar bynciau'r dydd â'r craffter hwnnw a feithrinwyd ym mywiogrwydd meddwl yr ardal honno. Gŵr gonest, plaen, cymwynasgar ydoedd, Anghydffurfiwr cadarn, ac yr oedd ei grefydd yn syml, yn ddeallus, yn pwysleisio cymwynasgarwch a gonestrwydd. Bu'n weithiwr caled, didwyll drwy ei oes. Ni bu'n iach ers tro, ond trawyd ef yn ddisymwth ac yntau wrth ei waith. Aethpwyd ag ef i Ysbyty, Aberystwyth, ond methwyd ag achub ei fywyd. Gedy weddw a saith o blant wedi tyfu i fyny mewn galar dwys o'i golli. Fe'i claddwyd ar yr 20fed o Hydref ym mynwent Capel Cribyn. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. Evans, Cwmiago, a J. O. Jones, Penycae, yn y capel gan y Parch. A. J. Martin, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Islan Jones.

Hydref 24, yn 60 mlwydd oed, WILLIAM DAVIES, Brynog Mansion, Llanfihangel Ystrad, Ceredigion. Gwannaidd oedd ei iechyd ers rhai blynyddoedd ; byddai ar ôl adeg o wendid yn cryfhau, ond rai misoedd yn ôl gwanychodd yn fwy na'r troion blaenorol, a pharhau a wnaeth i wanychu hyd y diwedd. Yr oedd yn amaethwr deallus, ac yn meddu ar allu i drefnu ei amgylchiadau yn dda. Pan oedd plasdy Brynog, preswylfa y diweddar Capten Vaughan, ynghyd â'r eiddo mewn tiroedd a thai yn cael eu gwerthu prynodd y palasdy ynghyd â rhan fawr o'r fferm helaeth a berthynai iddo. Yr oedd hyn yn anturiaeth fawr ond cam tuag at fwy o lwyddiant yn ei hanes y bu hyn. Fel dyn, anhawdd fyddai cyfarfod ag un mwy hawddgar : bob amser yn siriol, ac yr oedd ei dymer hynaws wedi ei wneud yn un a oedd yn cael ei hoffi gan bawb. Cymerai ddiddordeb mewn pethau tuallan i'w gylch fel amaethwr, ac yr oedd wedi diwyllio cymaint o'i feddwl fel yr oedd ei gymdeithas yn un ddiddorol ac adeiladol. Teimlir fod Dyffryn Aeron wedi cael ei dlodi yn fawr drwy ei symudiad. Claddwyd ym mynwent eglwys Rhydygwin, y Parch. Lewis Williams yn gwasanaethu. Cynorthwywyd gan y Parch. J. Morgan, Ficer Trefilan ; J. Davies, Ficer Ystrad, ac Emrys Evans, Tynygwndwn. Yr oedd y Parch. D. Evans, Cwmiago yn bresennol. Gadawodd briod, mab, merch a'i phriod ac wyres, pump brawd, dwy chwaer, chwiorydd yng nghyfraith, brodyr yng nghyfraith, neiaint, ynghyd â llawer o berthynasau eraill mewn galar dwys.

O'r un ar ddeg chwanegwyd—arall frawd,
I'r wyll fro y'i galwyd
O'i hwylus Blas a'i aelwyd,
I'r dydd hallt y trydydd wyd.
[Ei frawd—Cribin Bach).

HYDREF 27, yn 28 mlwydd oed, DAVID THOMAS DAVIES, mab Mrs. Davies a'r diweddar Timothy Davies, Penynant, gerllaw Llanwnnen. Ei fwriad oedd bod yn Feddyg, a phan oedd mewn Ysgol Feddygol yn Llundain dechreuodd ei iechyd wanychu, a gorfu iddo ddychwelyd gartref. Bu yn Iechydfa Talgarth am hir amser, ond ni chafodd adferiad hollol yno. Bu yn gweithio mewn awyr agored am tua thair blynedd, ond gwanychu oedd ei iechyd, ac yn y diwedd cafodd ei gyfyngu i'w wely ym Mhenynant am rai misoedd. Gweiniwyd arno yn dyner iawn gan ei fam, a welodd ei hunig blentyn yn diflannu fel blodeuyn yng nghanol haf. Cydymdeimlir yn fawr â hi yn ei thristwch, a dymunir iddi nerth i ddwyn y groes drom. Claddwyd ym mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Lewis Williams ac S. E. Bowen ; yn y capel rhoddwyd anerchiad gan y Parch. Lewis Williams, a gorffennwyd ar lan y bedd gan y Parch. A. J. Martin, B.A. Heblaw ei fam gadawodd berthynasau eraill ynghyd a phriod mewn hiraeth dwys.

PRISCILLA MARY, annwyl briod Alfred Jones, 10, Cletwr Terrace, Pontshan yn 56 mlwydd oed. Yr oedd wedi colli ei hiechyd ers blynyddoedd, a daeth hi â'r teulu yn ôl i'r wlad yn y gobaith y cai adferiad trwy hynny. Dim ond ychydig fisoedd a gafodd yn ei chartref newydd. Un o ardal Llanllwni ydoedd yn wreiddiol, a gwelwyd llawer o'i hen gyfeillion o'r ardal honno yn yr angladd. Bu farw ar Hydref 28, a chladdwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd ei phriod, pedwar o blant, a pherthynasau eraill i wylo ei cholli.

Nodion yr Eglwysi.

CYWIRO GWALL.—Trwy amryfusedd llithrodd enw y Parch. Noel James, B.A., Llundain o bennawd yr ysgrif ar "Ail-drefnu a Diwygio" yn ein rhifyn diwethaf. I'r ysgrif ar "Hanes Undodiaeth" dylai *foot-note* ymddangos yn dweud mai cyfieithiad ydyw o bamffled y Parch. R. V. Holt, M.A., B.Litt., Rhydychen. —GOLYGYDD.

RHYDYGWIN A CHILIAU AERON.—Pregethwyd yn y Cyrddau Diolchgarwch gan y Parch. E. O. Jenkins, a chafwyd gwasanaethau da.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.—Drwy amryfusedd gadawyd allan y ddau enw canlynol o restr y tystysgrifau yn Safon II (Ysgrifenedig) : Hetty May Ansell (Bwlchyfadfa), Betty Thomas (Llwynrhydowen).

LLWYNRHYDOWEN A CHAPELYFADFA.—Cynhaliwyd cyrddau diolchgarwch am y cynhaeaf yn y ddau le yma ar ddyddiau Mercher ac Iau, Hydref 27 a 28, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. A. J. Martin, B.A. Rhoddodd foddhad mawr i'r gwrandawyr, a chafwyd cynulliadau gwir dda, a chofio'r amgylchiadau.

ABERYSTWYTH.—Cawsom ni yma ein Cyrddau Diolchgarwch am y Cynhaeaf ar y trydydd Sul o fis Hydref. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog a roddodd inni fel arfer ddwy bregeth rymus ac amserol. Addurnwyd y capel bach yn ddestlus iawn gan aelodau'r adran o Gynghrair y Gwragedd. 'Roedd cynulliad da yn bresennol yn y borau a thipyn yn llai yn yr hwyr.

GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Ar Hydref 17 a 18 cynhaliwyd y Cyrddau Blynyddol, a'r pregethwr oedd y Parch. J. Marles Thomas, M.A.

Yn y pedair oedfa cafwyd cynulliadau da iawn, y casgliadau'n fwy na'r arfer, a'r pregethu'n rymus ac yn ysbrydiaeth. Agorwyd oedfa'r prynhawn ar y Sul gan y Parch. D. John, Gosen, Trebanos. Ar Hydref 31 cynhaliwyd y Cyrddau Diolchgarwch, y gweinidog yn gwasanaethu.

ABERDAR.—Cynhaliwyd yr ŵyl flynyddol o ddiolch am y cynhaeaf yn yr Hen Dŷ Cwrdd ar Fedi 5. Sicrhawyd gwasanaeth y Parch. A. J. Martin, B.A. y tro yma. O ystyried difaterwch y dyddiau hyn cafwyd tair oedfa a chynulliadau da ynddynt. Teimlwn yn hapus am hynny. Traethwyd gwersi gwerthfawr mewn modd arbennig a dymunol iawn yn ein clywedigaeth, y pregethwr a'r moliant mewn hwyl dda. Aeth llawer blwyddyn heibio oddiar y bu'r Parch. A. J. Martin yma o'r blaen. Hyfrydwch calon oedd canfod y cynnydd yn ei allu fel pregethwr. Y mae'n ŵr ieuanc a chanddo weledigaeth, yn traethu gyda phendantrwydd. Dymunwn iddo lwyddiant mawr yn y dyfodol. Gŵyl wrth ein bodd y bu hon.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N. ar y dydd Sul cyntaf o'r mis am 4.15 p.m. Calonnog oedd gweled cynifer yn ein gwasanaeth ar y Sul cyntaf ym mis Hydref. Pleser oedd cael Miss Hannah Morgan a Mr. Jack Williams gyda ni unwaith eto. Cyn iddi orfod gadael Llundain trwy afiechyd rhyw dair blynedd yn ôl, yr oedd Miss Morgan yn un o'n haelodau mwyaf ffyddlon ; edrychwn ymlaen am ei gweled yn y dyfodol yn dychwelyd i fyw yn y Brifddinas unwaith eto. Y mae'n flin gan y Parchedig Noel James, B.A. na all gymryd y gwasanaeth nesaf ; ac er y carai'r Parchedig T. L. Jones bregethu inni, ni all yntau ddyfod oherwydd bod y gwasanaethau yn Leytonstone yn y prynhawn a'r hwyr yn ystod misoedd y gaeaf yma. Felly, Dr. R. Ogwyn Jones, M.Sc. a fydd yn ein gwasanaethu eto am 4.15 p.m. ar Sul, Tachwedd 7, er ei fod yntau ar hyn o bryd yng nghanol y mynyddoedd yng Ngogledd yr Alban. Gobeithir y gwna pawb bob ymdrech i ddyfod i'r gwasanaeth a dychwelyd i'n cartrefi cyn ei bod hi wedi llwyr nosi ! Bydd y casgliad y tro hwn tuag at y General Assembly, a dymunir ar i bawb gyfrannu cymaint ag y medrant. Blin gan y Parchedig T. H. Coram Davies, B.A. na all ddyfod atom yn Rhagfyr na Ionor. Y mae'r Parchedig Noel James wedi addo pregethu ym mis Rhagfyr. Nid yw'r Nadolig ymhell iawn o'n blaen ; ac felly gofynnir ar i bawb geisio casglu cyfeiriadau ein haelodau sydd gyda'r lluoedd arfog, er mwyn ein galluogi i ddanfon iddynt anrheg Nadolig fel arfer.

YN EISIAU £500.—Dyna darged Cymdeithas Undodaidd Morgannwg. Y mae hithau fel y Cyfundrefnau Crefyddol eraill yng Nghymru yn trefnu ar gyfer y cyfnod wedi'r rhyfel. Nid yw pob enwad mor lwcus a'r Methodistiaid Calfinaidd. Nid cynt y gwnaethant yn hysbys eu bwriad i gasglu can mil o bunnoedd nag yr addawyd hanner y swm hwnnw gan un dyn ! Y mae'r Bedyddwyr hwythau'n pwyllgora er mwyn trefnu'r cynlluniau, ac y mae'r Annibynwyr wrthi'n casglu hanner can mil, eu cyfran hwy o'r ddau can mil sydd yn nôd gan yr enwad yn Lloegr a Chymru. Hyd yn hyn casglodd Cymdeithas Undodaidd Morgannwg £179 14s. 11½d. Os oes rhywrai ymhlith darllenwyr YR YMOFYNNYDD a garai estyn eu cymorth, diolchir iddynt yn wresog gan y casglydd, y Parch. J. D. Jones, 211, Swansea Road, Trebanos, Swansea.

YR YMOFYNNYDD.—Er mwyn cwrdd a'r draul ychwanegol o'i argraffu disgwylir i'r cynulleidfaoedd eleni eto anfon eu swm arferol. Bydd yn dda hefyd gan y trysorydd dderbyn y tanysgrifiadau. Anfoner at Mr. D. Jones, Maes yr Haf, Lampeter.

Ai Terfyn Gwareiddiad?

I HAVE A KEY. G. Stephens Spinks, M.A. The Lindsey Press. Pris Swllt.
ADFEILION. Alwyn D. Rees. Llyfrau'r Dryw. Pris Swllt a Thair.

Y mae'r testun "Adfeilion" yn arwyddocaol o gynnwys y llyfr—bod gwareiddiad y Gorllewin yn dadfeilio, yn wir adfail ydyw heddiw. Llyfr tebyg gan un o'n gweinidogion yn Lloegr yw "I Have a Key." Diagnosis o'n cyfnod a geir ganddynt ill dau, a chytunant i raddau helaeth yn eu diagnosis. "Pobl wedi colli'r ffordd ydym," medd Mr. Spinks. "Y mae y cyfnod diweddar yn hanes Ewrop yn tynnu i ben," medd Mr. Rees, ac yn unig drwy sylweddoli ein bod yn byw rhwng dau gyfnod y gallwn ddeall ein cyflwr adfydus. Fel Boethius gynt, yr ydym yn byw mewn *trough*—gair Mr. Spinks yn ei erthygl, A Light in the Dark Ages—and Beyond, yn yr *Hibbert Journal*, Gorff. 1942. Y mae'r hen wareiddiad yn dadfeilio, a'r newydd heb ei eni.

Ond ni chytuna'r ddau awdur yn yr arwyddocad a roddant i'r dadansoddiad hwn. Tra y mae Mr. Spinks ym mhell o fod wedi anobeithio, yn wir yr effaith ar un darllenydd oedd calondid, deil Mr. Rees mai ein lle yw anobeithio o'r "Hen gyfundrefn ac ymysgwyd o afael ei llaw farw." Dyna, yn ôl ei eiriau ei hun, amcan y llyfr. Rhaid anobeithio er mwyn dyheu am ysbrydiaeth newydd.

Ceir tri phwynt gobeithiol gan Mr. Spinks tua diwedd ei lyfr. (1) Er mai byd llawn o ddigwyddiadau trychinebus yw ein byd nid yw'n anhrefn hollol (chaos), ac ni fydd hyd nes y daw'n anhrefn ar feddwl dyn. (2) Effeithiau diogi ysbrydol a meddyliol yw catastroffi'n byd, a bod y catastroffi hwn yn esgor ar arbrofion newydd o fywyd. Arwain (1) a (2) i'r (3), Mai rhan dyn, cenedl, a gwareiddiad yw cael eu geni a marw, ond sicrheir dyfodol y Ddynoliaeth, nid yn rhinwedd unrhyw broses mecanyddol ond am ei bod yn ddynol. Y mae gan ddyn bwer ynddo'i hun, nid yn unig i barhau'r rhywogaeth ond hefyd i benderfynu pa fodd y bydd byw. Gall hanes dynol fod yn hanes cynyddol o fywyd mwy rhydd a bywyd mwy llawn.

Deil Mr. Rees hefyd i gredu y gall ewyllys ac ymdrech dyn ddylanwadu i fesur helaeth ar gwrs Hanes. Dywed nad diben ei lyfr yw gosod Amen ar ddiwedd hanes Ewrop. I'r rhai sy'n gyfarwydd a gweithiau Drucker, Neibuhr, a Christopher Dawson bydd maes y llyfr yn gynefin. Ceir ynddo restr dda o lyfrau yn delio ar y cwestiwn, neu agweddau ar y cwestiwn, ar ddiwedd y llyfr.

Yn ei ragymadrodd dywed y Parchedig Herbert Morgan, Aberystwyth mai "gŵr ifanc yw'r awdur yn ceisio disgrifio a dehongli gweddau pwysig ar un o argyfyngau mwyaf y ddynoliaeth." Ychwanega : "Dylai pobl hŷn wrando ar farn yr ifanc. Gŵr lleyg ydyw yn traethu ei farn ar grefydd gyfundrefnol, a thybed na thalai'r ffordd i grefyddwyr o bob enwad wrando arno?"

Dyma grynhodeb o gynnwys y llyfr. Collodd ein hoes ffydd y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn cynnydd (progress) a gwell byd. Rhoir crynhodeb o lyfr Spengler, *Decline of the West*, a dadleua'r awdur fod y cyfnod diweddar yn hanes Ewrop yn tynnu i ben. ". . . yn unig trwy sylweddoli ein bod yn byw rhwng dau gyfnod y gallwn ddeall cyflwr adfydus cymdeithas ein dydd."

Collodd Ewrop y flaenoriaeth oedd iddi yn ystod y ganrif ddiwethaf; gan yr Unol Daleithiau, Rwsia, a Japan y mae'r flaenoriaeth heddiw, ac y mae "trigolion anneirif y cyfandiroedd a ddarostyngwyd gan Ewrop [yn yr Affrig ac Asia] wedi dechrau anesmwytho ac yn hawlio'u rhyddid." Gwel yr awdur "argoel gwrthryfel aruthrol yn erbyn penarglwyddiaeth y dyn gwyn yn y dyfodol agos." A all Gorllewin Ewrop wrthsefyll yr ymosodiadau hyn? Na all, am nad ydym yn siŵr ohonom ein hunain, ac na allwn heddiw gredu yn ein cenhadaeth yn y byd. Hunan-amheuaeth yw un o'n gwendidau.

"Oes y patriarchiaid" yw ein hoes ni : hen bobl a deyrnasa—peth naturiol i fyd yn heneiddio. Ni allai'r ifanc arwain pe gallasent gael cyfle am fod "agwedd meddwl yr ifanc yn hollol negyddol, collasant eu ffydd yn yr hen ddelfrydau ac nid enynnwyd ffydd newydd ynddynt mewn pethau amgenach."

"O ba safbwynt bynnag yr edrychwn arno, y mae Gwareiddiad y Gorllewin ' on the defensive '." Un gallu ymosodol yn unig sydd yn Ewrop—totalitariaeth Ffasgaidd.

Bwrir golwg ar rai o'r "hen gostrelau" ; gan ddechrau gyda'r "dyn economaidd" ; efengyl cyfalafiaeth ryddfrydol ; diffrwythdra a methiant sistemau sosialaidd. Daw'r awdur i'r casgliad nad "cyfalafiaeth yw'r rhwystr pennaf ar ffordd cydraddoldeb a rhyddid ond natur cymdeithas ddiwydiannol." "Methiant fu cyfalafiaeth a sosialaeth ; diflannodd pob gobaith am y baradwys economaidd, a chyda'r gobaith hwnnw aeth y gwaelod allan o'r gymdeithas a wnaeth yr elfen economaidd yn arglwydd ar ei bywyd." Methodd ein cymdeithas, felly, yn ei hamcan. Y peiriant ydyw'r meistr heddiw, a dyn yn was iddo : peiriant isddynol yw'r gweithiwr diwydiannol. Fe barha'r peiriant i "ychwanegu at orffwylltra cyffredinol y byd modern" hyd nes darganfod sut i'w ddarostwng. Daeth diwedd ar Ddemocratiaeth Ryddfrydol ; dangosir diffrwythdra Dysg a Chelfyddyd y byd modern. Ceir amheuaeth ym mhob cylch arall—Anianeg, Bywydeg, Meddyleg. "Y mae cwrs afon gwybodaeth wedi profi'n dwyllodrus iawn."

Methodd yr Eglwysi wrthsefyll y tueddiadau hyn oll. Nid oes ganddynt—unrhyw enwad—y ffydd a'r egni i ateb yr her. "Crair yw Eglwys Rhufain, sefydliad wedi goroesi ei gyfnod." Rhywbeth tebyg yw'r Eglwysi eraill. Hyd nes dyfod gweledigaeth gymdeithasol newydd, totalitariaeth fydd rhan pob gwlad. "Y wladwriaeth bellach fydd Alffa ac Omega ein bywyd."

A oes obaith ? Oes, os llwyddir i greu cymdeithas a phwrpas moesol iddi. Hyd nes gwneud hynny nid oes ymwared. "Rhaid inni, fel cymdeithas, fynd trwy dywyllwch rhyw fath o Fwlch yr Argyhoeddiad yn awr, neu ynteu wynebu cyfnod hir ym mhurdan totalitariaeth Ffasgaidd cyn cyrraedd Byd Newydd."

Gellid dyfynnu llawer o linellau bachog a gwir o'r llyfr. Ceir ambell syniad newydd hwnt ac yma. Gellid hefyd anghytuno a rhannau o'r llyfr. Rhydd i bob dyn ei farn. Nid oes ofod i fanylu. Bodlonwn yn unig ar ddweud yma yn Yr Ymofynnydd (mewn cylchgrawn rhyw enwad arall byddwn yn dweud mwy) y bydd yn rhaid i Undodiaeth wynebu'r ffaith fod y ffydd yng nghynnydd dyn a chymdeithas wedi profi'n fethiant, neu i leiaf yn or-optimistig. Yr oedd yr hen Undodiaeth, ac i raddau y mae'r syniad wrth wraidd ein credo heddiw, yng nghlwm wrth y ffydd hon a gollwyd. Daeth golwg newydd ar y natur ddynol. Rhaid ei hwynebu.

Noel James.

Gohebiaeth.

ATEB YR "ALWAD".

Syr,—Amcan yr "Alwad" ydyw chwilio'r enaid a chymell ein hymgysegriad ysbrydol ni i'r ffydd a goleddwn : na fydded i ddim dynnu ein sylw oddiwrth y ffaith holl-bwysig hon. Heb fywiocau ysbryd y rhai sydd eisoes oddifewn i'r gorlan bydd popeth arall yn ofer. Ond *i ba bwrpas* yr ydym yn dymuno am yr ymgysegriad hwn ? Oni bydd y pwrpas yn golygu gwasanaeth mwy dros y Ddynoliaeth, bydd popeth yn hollol ofer. Y mae Undodiaeth fyw yn herio ac yn ysbrydoli ei dilynwyr i roi eu bywydau mewn gwasanaeth trylwyr dros y Ddynoliaeth. I'r fath wasanaeth y mae yna, hefyd, ofynion ariannol.—Yr eiddoch,

Vaughan Lewis, *Caergrawnt.*

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.